Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Tycroes**
**Heol Pontarddulais**
**Tycroes**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3QD**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Tycroes wedi'i lleoli ym mhentref Tycroes ger Rhydaman yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae 204 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys saith yn y dosbarth meithrin. Mae saith dosbarth yn yr ysgol, ac mae llawer o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn dosbarthiadau un oedran. Yn cynnwys y pennaeth, mae saith athro amser llawn a phedwar athro rhan-amser yn yr ysgol.

Dywed yr ysgol fod anghenion dysgu ychwanegol gan 21% o ddisgyblion. Mae hyn ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig bach iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 13% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae tuag 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yng Ngorffennaf 2010. Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2013.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Tycroes yn 2015-2016 yw £3,530 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r isafswm yw £3,111. Mae Ysgol Gynradd Tycroes yn safle 67 o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
| --- | --- |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran dysgu a datblygu eu medrau
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymryd camau gwerthfawr yn erbyn eu targedau personol
- Mae safonau mewn Cymraeg yn rhagorol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos dwyieithog yr ysgol
- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm
- Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Mae'r rhan fwyaf o addysgu yn dda neu'n well
- Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar, sy'n rhoi ymdeimlad cadarn o berthyn i'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol a dynamig i dîm ymroddedig
- Mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu
- Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan yr holl staff ac maent yn cyflawni'r rhain yn ddiwyd
- Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu perfformiad yr ysgol yn gywir
- Mae'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n agos â deilliannau hunanarfarnu ac yn llwyddo i ysgogi gwelliannau, er enghraifft yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol â rhieni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddysgu
- Mae arweinwyr yn defnyddio staff addysgu a chymorth yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u doniau a'u galluoedd
- Defnyddir cyllid yn bwrpasol i godi safonau medrau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyno gwaith

A2 Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod staff yn cymhwyso'r polisi marcio yn gyson ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyd-fynd yn fras â'r medrau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd da o gymharu â'u man cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda a gallant gymhwyso'u gwybodaeth yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar farn pobl eraill a gallant barhau i ganolbwyntio am gyfnodau priodol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn rhugl ac yn cynnig barn ystyriol ar amrywiaeth o bynciau i oedolion, ymwelwyr a'i gilydd, er enghraifft wrth drafod eu barn am foddi pentref i greu cronfa ddŵr.

Mae safonau darllen yn dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant, ac ar lefel sy'n briodol i'w hoedran. Gwnânt ddefnydd da o gliwiau cyd-destunol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Gall disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen esbonio'r gwahaniaeth rhwng llyfrau stori a llyfrau gwybodaeth a gallant ddefnyddio mynegai yn gymwys.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus, gyda mynegiant. Gallant ragweld y stori ac edrych y tu hwnt i'r testun i lywio'r hyn maent yn ei feddwl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am y llyfrau y maent wedi eu darllen a'r awduron y maent yn eu mwynhau ac yn rhoi sylwadau ystyriol, meddylgar i gefnogi eu dewisiadau.

Mae safonau ysgrifennu'n datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Ysgrifennant ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth ddiddorol o eirfa yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft yn eu hadroddiadau gwybodaeth am y fforest law. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a medrau cyflwyno mwyafrif y disgyblion cystal ag y gallent fod.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at amrywiaeth eang o ddibenion gan ddefnyddio genres gwahanol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio strwythurau brawddegau a sillafu da. Mae cyflwyniad gwaith a safon llawysgrifen yn amrywio'n ormodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ar draws feysydd eraill y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn amrywio cynnwys eu gwaith ysgrifenedig yn effeithiol er mwyn ymateb i ofynion y dasg, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr darbwyllo oddi wrth y Mab Afradlon i'w dad.

Mae safonau'n dda mewn mathemateg. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u medrau rhif a thrafod data yn dda mewn gwersi mathemateg ac ar draws feysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn a mwy abl yn defnyddio'u gwybodaeth am gyfesurynnau yn dda i fapio llwybr trwy ddrysfa mewn fforest law.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu'n dda. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o rif a gwerth lle ac mae'r mwyafrif yn cyflawni cyfrifiadau pen yn gyflym ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod addas o ddulliau i luosi rhifau 2 a 3 digid. Maent yn dehongli data yn dda ac yn mesur yn fwyfwy cywir. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau a ddysgant mewn gwersi mathemateg ar draws feysydd eraill y cwricwlwm yn llwyddiannus i ddatrys amrywiaeth o broblemau bywyd go iawn, er enghraifft wrth gyfrifo canran y sbwriel ailgylchadwy.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu Cymraeg ysgrifenedig a llafar. Mae'r 'Criw Cwl Cymraeg' yn hybu'r defnydd o Gymraeg llafar yn weithgar ac yn frwdfrydig ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rheolaidd y tu allan i'r dosbarth, gan greu ethos Cymraeg naturiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus ac yn estynedig gydag oedolion a gyda'i gilydd. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn darllen llyfrau Cymraeg sy'n briodol i'w hoedran gyda mynegiant a dealltwriaeth. Maent yn datgodio geiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio'u gwybodaeth am ffoneg ac esboniant yr ystyr yn hyderus. Mae safonau Cymraeg ysgrifenedig yn dda ac yn datblygu'n dda wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion ddefnyddio ffrâm ysgrifennu i greu cerdd syml am yr hydref. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio amserau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn eu gwaith ysgrifenedig. Defnyddiant ystod eang o ymadroddion a geirfa, er enghraifft wrth ystyried eu huchelgeisiau at y dyfodol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y deilliant disgwyliedig wedi tueddu i osod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio'n helaeth heb unrhyw duedd gyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio'n helaeth dros y pedair blynedd diwethaf ac nid oes tuedd gyffredinol.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i gyflawni cystal â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at oedolion a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu ac maent

yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gan ganolbwyntio'n barhaus ac maent yn ymroi'n gadarnhaol i dasgau. Gweithiant yn llwyddiannus gydag eraill mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn cydweithio'n dda i ddatrys problem ynghylch sut i gael gwrthrychau trwm i arnofio.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant sut i gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor chwaraeon yn chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau sydd o fudd i bob disgybl. Er enghraifft, fe wnaethant helpu datblygu'r cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref ac, yn fwyaf diweddar, maent wedi datblygu 'sied lyfrau' i ddisgyblion fynd iddi yn ystod amser chwarae. Mae aelodau'r cyngor ysgol sydd yng nghyfnod allweddol 2 yn goruchwylio disgyblion iau yn effeithiol yn yr iard yn ystod amser egwyl ac yn helpu disgyblion i ddefnyddio'r offer chwarae amrywiol.

Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion wedi gwella'n raddol er 2013, ac mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn yr ysgol yn rheolaidd a dangosant ymrwymiad cadarn i bresenoldeb da. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol. Mae'n cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd helaeth i ddefnyddio'u medrau rhifedd a TGCh. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio ystod eang o offer TGCh. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn cyflwyno gwybodaeth yn greadigol gan ddefnyddio TGCh. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae cynlluniau athrawon wedi sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae cymorth targedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd da.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad Cymraeg disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ddeunydd darllen perthnasol ac mae'n cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wella'u Cymraeg ysgrifenedig, er enghraifft wrth arwain addoli ar y cyd. Mae'r holl staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn rheolaidd gyda disgyblion ac, o ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn defnyddio'r iaith yn hyderus ac yn frwdfrydig. Mae cyfleoedd systematig ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu bro ac am hanes a diwylliant Cymru. Ymwelant â mannau o ddiddordeb yn y gymuned leol, fel y fferm ynni gwynt leol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod werth chweil o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft y clwb codio TGCh, ac mae disgyblion yn cymryd rhan ym mhencampwriaeth her

Fformiwla 1 y Deyrnas Unedig. Mae'r profiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau mewn TGCh ac ar agweddau disgyblion at ddysgu. Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu doniau creadigol, gan gynnwys ystod helaeth o wersi dysgu offerynnau cerdd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm ac wedi sefydlu cysylltiadau addysgol ag ysgol yn Sweden yn ddiweddar. Mae ganddi bwyllgor eco wedi'i hen sefydlu, sydd wedi cynnal gwelliannau effeithiol, er enghraifft trwy drefnu i osod synwyryddion golau sy'n arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o athrawon am eu pwnc yn dda ac yn gyfredol. Cynlluniant yn effeithiol er mwyn rhoi gwersi ysgogol sy'n symbylu ac yn ennyn diddordeb eu disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau'n effeithiol i gynnig profiadau dysgu sy'n herio disgyblion i weithio hyd eithaf eu gallu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau holi yn llwyddiannus. Maent yn annog disgyblion yn effeithiol i ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion yn dda iawn. Mae ethos o barch tuag at ei gilydd a gwaith tîm yn helpu i greu amgylchedd dysgu pwrpasol a brwdfrydig mewn dosbarthiadau.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn rheolaidd. O ganlyniad, caiff disgyblion lawer o gyfleoedd defnyddiol i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain. Mae gweithredu cod marcio newydd yn rhoi dealltwriaeth gliriach i ddisgyblion o ba mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei weithredu y mae hwn ac nid yw athrawon yn ei gymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn gywir gan ddefnyddio system olrhain ar-lein. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n arwain at welliannau yng ngwaith disgyblion.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn bodloni gofynion ac yn rhoi gwybodaeth bwrpasol i rieni am ba mor dda y mae eu plant yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar sy'n rhoi ymdeimlad cryf o berthyn i ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn barod i ddysgu.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn flaenoriaeth yn y cwricwlwm. Mae datblygu sesiynau chwarae cadarnhaol wedi arwain at welliannau amlwg yn safonau lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl hynny. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau rygbi ar ôl ysgol gyda'r clwb lleol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau clir, cynhwysfawr ar gyfer monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi'r disgyblion hyn yn gynnar ac yn darparu cymorth targedig, effeithiol trwy amrywiaeth addas o raglenni ymyrraeth. Mae athrawon yn ysgrifennu cynlluniau addysg unigol sy'n benodol ac yn adeiladu'n systematig ar anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod helaeth o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth cymorth ymddygiad, i gefnogi lles a dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn hybu presenoldeb da yn drwyadl. Mae'n sicrhau bod rhieni'n gwybod am oblygiadau cymdeithasol ac addysgol absenoldeb trwy gylchlythyron rheolaidd, cyfarfodydd i rieni a phroffiliau presenoldeb unigol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos digynnwrf a chroesawgar sy'n cynnig amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Mae polisïau a strategaethau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ac yn cefnogi'r ethos cadarnhaol yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn gallu manteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm ac ystod fuddiol o weithgareddau ac ymweliadau diddorol.

Mae'r ysgol yn cynnal a chadw'i hadeiladau'n dda ac mae'r ystafelloedd yn fodern, gyda digon o le ynddynt. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus â rhieni a'r gymuned i ddatblygu'r tir i wella'r cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm ac mae ganddi offer TGCh arbennig o dda. Mae adnoddau ar draws yr ysgol yn rhai o ansawdd da a chefnogant ddysgu disgyblion yn effeithiol. Mae arddangosfeydd dwyieithog a gynhelir yn dda yn dathlu llwyddiant disgyblion yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu nodau ac amcanion strategol clir sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a bodloni anghenion disgyblion. Mae'r pennaeth yn rhoi arweinyddiaeth glir a dynamig i'r ysgol. Mae'n cyfleu disgwyliadau uchel i ddisgyblion, staff a rhieni yn effeithiol iawn. Mae'r uwch reolwyr a'r llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon ac mae ymdeimlad cryf o waith tîm ar draws yr ysgol.

Mae'r system rheoli perfformiad yn drylwyr ac mae trefniadau da ar waith i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd a hyfforddiant diwrnod cyfan yn cefnogi datblygiad proffesiynol staff a blaenoriaethau strategol yr ysgol yn effeithiol. Mae'r holl athrawon a staff cymorth yn dangos pwrpas cyffredin. Canolbwyntiant yn dda ar wella cyrhaeddiad disgyblion, gweithredu targedau gwella'r ysgol a bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gydwybodol. Mae'r pennaeth yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i'r corff llywodraethol yn rheolaidd am fywyd a gwaith yr ysgol a'i pherfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Cynigiant her werthfawr i'r ysgol. Er enghraifft, mae pob llywodraethwr bellach yn aelod o'r pwyllgor cyllid i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn mewn penderfyniadau gwariant sy'n canolbwyntio ar godi safonau ar gyfer disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn systematig ac yn arwain yn glir at amlygu meysydd penodol i'w gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn casglu ystod helaeth o dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a dadansoddiad trylwyr o ddata asesu. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw o holiaduron i rieni a disgyblion mewn modd buddiol iawn i ategu'r broses hunanarfarnu. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff o hunanarfarnu yn llwyddiannus er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella. Mae'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Maent yn nodi cyfrifoldebau, amserlenni perthnasol, costau a meini prawf ar gyfer llwyddiant. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn monitro cynnydd yr ysgol tuag at gyrraedd y targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn drwyadl. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen waith werthfawr y mae staff yn ei deall yn dda ac mae'n darparu agenda berthnasol ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen. Er enghraifft, arweiniodd cynllunio datblygu'r llynedd at welliannau amlwg mewn safonau rhifedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf â rhieni, y gymuned a sefydliadau eraill. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae 'Ffrindiau Ysgol Tycroes' yn chwarae rhan bwysig yn codi arian ar gyfer gweithgareddau disgyblion ac adnoddau ysgol. Yn ddiweddar, cafodd grant i greu llwybr antur yn yr awyr agored i'w ddefnyddio gan yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd eu plant trwy gylchlythyron a gwefan addysgiadol yr ysgol. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i rieni ddysgu rhagor am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu, er enghraifft trwy gyfarfodydd diweddar yn darparu gwybodaeth am lythrennedd a rhifedd.

Mae perthnasoedd pwrpasol gyda staff o'r clwstwr lleol o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn galluogi staff i gydweithio'n effeithiol i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb eu hasesiadau.

Mae trefniadau pontio sefydledig gyda chylchoedd chwarae cyn-ysgol pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae trefniadau effeithiol i gefnogi disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod disgyblion yn pontio'n hwylus i'r cam nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cymorth cymwys. Mae'n defnyddio staff cymorth yn arbennig o effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u doniau a'u gallu. Maent yn rhan werthfawr ac effeithiol o'r tîm a chânt ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol. Caiff aelodau'r uwch dîm rheoli amser rheoli priodol i fonitro safonau ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau a'i hadnoddau yn dda. Mae penderfyniadau gwariant yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac mae'r corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer gwario'r grant amddifadedd disgyblion yn hynod effeithiol a chanolbwyntiant yn dda ar godi safonau disgyblion agored i niwed. O ganlyniad, mae eu presenoldeb a'u perfformiad wedi gwella.

O ystyried y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion ac ansawdd cadarn y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692044 - Ysgol Gynradd Ty-croes**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 204 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 28 | 18 | 27 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.7 | 77.8 | 92.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 18 | 27 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 77.8 | 92.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.4 | 33.3 | 25.9 | 30.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 18 | 27 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.4 | 88.9 | 92.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.9 | 33.3 | 37.0 | 30.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 18 | 27 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.4 | 100.0 | 92.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 38.9 | 48.1 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692044 - Ysgol Gynradd Ty-croes**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 204 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 25 | 30 | 24 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 96.0 | 80.0 | 91.7 | 69.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 24 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.0 | 83.3 | 100.0 | 78.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.0 | 23.3 | 29.2 | 21.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 24 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.0 | 86.7 | 91.7 | 78.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.0 | 20.0 | 37.5 | 24.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 24 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 93.3 | 100.0 | 87.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.0 | 23.3 | 45.8 | 24.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

mae'n dynodi'r trothwy – sef cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 104<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 91<br>88%<br>92% | 13<br>12%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 103 | 98<br>95%<br>97% | 5<br>5%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 101<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 103 | 97<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 102 | 100<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 103 | 102<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 100<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 103 | 97<br>94%<br>91% | 6<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 103 | 98<br>95%<br>95% | 5<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 99 | 79<br>80%<br>77% | 20<br>20%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 76<br>76%<br>84% | 24<br>24%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r trothwy – sef cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 17 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 24 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 20 | 13 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 19 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 28 | 8 | 17 | 3 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 29% | 61% | 11% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 29 | 18 | 10 | 1 | 0 | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 17 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 13 | 13 | 2 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 46% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 13 | 12 | 2 | 1 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 46% | 43% | 7% | 4% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 19 | 13 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 20 | 11 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 0% | 3% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 25 | 18 | 5 | 1 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 20% | 4% | 4% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 32 | 15 | 14 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 47% | 44% | 6% | 3% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 19<br>63% | 10<br>33% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 28 | 15<br>54% | 10<br>36% | 3<br>11% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 16<br>48% | 16<br>48% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 11<br>61% | 5<br>28% | 2<br>11% | 0<br>0% | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 19<br>61% | 10<br>32% | 2<br>6% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 20<br>62% | 10<br>31% | 2<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Helen Kay Lester | Arolygydd Cofnodol |
| Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Sarah Hurst | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elfed Wood | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.